

JAMBO Ri

EWRO MENYWOD CYMRU
WALES' WOMEN'S EURO SINGALONG

2025



YMLAEN!

Enethod, fenywod
Ma'r llwyfan yma'n barod
A ma'r byd yn eiddo i ni.
Rocesi, lodesi,
Grostes i a lancesi
'Dan ni'n nerthol, 'dan ni'n gry...
A ma'r Cryse Cochion
Yn dechre aflonyddu nawr,
Bob hogan a bob fogan,
Galonnau Cymru gyfan
'Dan ni'n codi'n cri
Dros ein genod ni!

Ymlaen! Ymlaen!
Ma' Cymru'r menywod
yn symud mlaen,
Ymlaen! Ymlaen!
Symud ymlaen
Ymlaen! Ymlaen!
Bob mam a merch, mamgu a nain
Ymlaen! Ymlaen!
Symud mlaen.

Ma'r frwydr yn fythol.
Ma hynna'n hanesyddol
Ond ma'r newid nawr ar droed
Ma'r Ddraig yn fenywaidd,
Ma'i fflamau'n llosgi'n euraidd
Ac yn boethach nag erioed
Ym mhob cam, pob rhediad,
Ac ym mhob ymosodiad
A phob un amddiffyniad
'Dan ni'n codi'n cri
Dros ein genod ni
Dros ein gwlad a'n hiaith
A phopeth ynddi hi!

Ymlaen! Ymlaen!
Ma' Cymru'r menywod
yn symud mlaen,
Ymlaen! Ymlaen!
Symud ymlaen
Ymlaen! Ymlaen!
Bob mam a merch, mamgu a nain
Ymlaen! Ymlaen!
Symud mlaen.



JAMBO Ri

EWRO MENYWOD CYMRU
WALES' WOMEN'S EURO SINGALONG

2025



TUDALEN 2 - YMLAEN!

Mae calon y Ddraig yn curo'n gry
Yn llenwi gwythienne ein genod ni

Mae calon y Ddraig yn curo'n gry
Yn llenwi gwythienne'r genod.

Mae calon y Ddraig yn curo'n gry
Yn llenwi gwythienne ein genod ni

Mae calon y Ddraig yn curo'n gry
Yn llenwi gwythienne'r genod.

Ymlaen! Ymlaen!
Ma' Cymru'r menywod
yn symud mlaen,
Ymlaen! Ymlaen!
Symud ymlaen
Ymlaen! Ymlaen!

Bob mam a merch, mamgu a nain
Ymlaen! Ymlaen!
Symud mlaen.

Ymlaen! Ymlaen!
Ma' Cymru'r menywod
yn symud mlaen,
Ymlaen! Ymlaen!
Symud ymlaen
Ymlaen! Ymlaen!

Bob mam a merch, mamgu a nain
Ymlaen! Ymlaen!
Symud mlaen.

